Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU, DOGFENNU

# Gwasanaethau fferyllol cyffredinol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022

Data ar fferyllfeydd, presgripsiynau a roddwyd a gwasanaethau fferyllol a gynigir ar gyfer Ebrill 2021 i Fawrth 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 19 Hydref 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 19 Hydref 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyflwyniad

Fferyllfeydd

Presgripsiynau

Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau cleifon

Atal cenhedlu brys

Brechlyn ffliw tymhorol

Y gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Cyflenwi meddyginiaethau brys

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae'r datganiad ystadegol blynyddol hwn yn cyflwyno gwybodaeth am fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru sydd â chontract gyda byrddau iechyd.

Fferyllfeydd cymunedol yw'r rhai a geir mewn dinasoedd, trefi a phentrefi ledled y wlad, er enghraifft ar y stryd fawr, mewn archfarchnadoedd neu mewn meddygfeydd teulu.

Er mai gwasanaethau hanfodol fel dosbarthu presgripsiynau yw prif rôl fferyllfeydd cymunedol o hyd, mae'r rhan fwyaf yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol GIG ychwanegol, gan gynnwys adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau cleifion, atal cenhedlu brys, brechlyn ffliw tymhorol, gwasanaeth anhwylderau cyffredin, a chyflenwi meddyginiaethau brys. Crynhoir y data newydd o ran y  gwasanaethau hyn ar gyfer 2021-22.

Er bod fferyllfeydd cymunedol wedi rhoi gweithdrefnau rheoli heintiau ar waith yn unol â chanllawiau COVID-19 ar wahanol adegau yn ystod 2021-22, ni chredwyd bod y pandemig wedi effeithio ar y gweithdrefnau casglu data.

Mae’r ystadegau yn y datganiad hwn wedi’u seilio ar ddata Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Fferylliaeth). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr **adroddiad ansawdd**.

Cyhoeddir y data a ddefnyddiwyd yn y datganiad hwn ar **StatsCymru**.

# Fferyllfeydd


Prin fu'r newid yn nifer y fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf.  Roedd yr un nifer o fferyllfeydd (712) ar 31 Mawrth 2022 ag oedd ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

31 Mawrth 2013.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae nifer y fferyllfeydd annibynnol wedi gostwng ychydig, tra bod nifer y fferyllfeydd lluosog/cadwyn wedi cynyddu ychydig.

**Siart 1: Fferyllfeydd yn ôl math, ar 31 Mawrth bob blwyddyn, 2013 i 2022**




Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Fferyllol)

**Fferyllfeydd cymunedol yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol a blwyddyn ar StatsCymru**

# Presgripsiynau

Prif ffynhonnell y data ar bresgripsiynau yw'r datganiad blynyddol **Presgripsiynau yng Nghymru** sy'n cynnwys dadansoddiad manylach o'r eitemau presgripsiwn a'u costau.

Gweinyddwyd 77.5 miliwn o bresgripsiynau mewn fferyllfeydd cymunedol yn


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybodaeth am **hawlfraint**.

2021-22. Nid yw hyn yn cynnwys eitemau a roddwyd gan feddygon sy'n cyflenwi ac eitemau a weinyddir yn bersonol sy'n cael eu rhoi ar bresgripsiwn a'u cyflenwi gan aelod o'r practis cyffredinol, sydd wedi'u cynnwys yn y data cyflenwi yn y datganiad **Presgripsiynau yng Nghymru**.

Mae hyn yn gyfartaledd (cymedrig) o tua 110,000 fesul fferyllfa, ac yn gynnydd o 12% ers 2012-13.

Mae nifer yr eitemau presgripsiwn a weinyddwyd wedi bod ar duedd raddol ar i fyny dros y ddegawd, gan gynyddu 2% ers y llynedd a 12% ers 2012-13.

**Siart 2: Nifer cyfartalog o bresgripsiynau a gyflenwyd fesul fferyllfa cymunedol, y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 i 2022**




Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Fferyllol)


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau cleifon

Nod y Gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau wrth Ryddhau Cleifion yw darparu cefnogaeth i gleifion a ryddhawyd o'r ysbyty yn ddiweddar drwy sicrhau bod newidiadau a wnaed i'w meddyginiaethau yn cael eu rhoi ar waith yn y gymuned fel y bwriadwyd.

Darparodd 567 (neu 80%) o fferyllfeydd adolygiadau o feddyginiaethau wrth ryddhau cleifion yn 2021-22. Cynyddodd hynny o 76% o fferyllfeydd yn eu cynnig y llynedd a 65% yn 2012-13.

**Siart 3: Nifer o hawliadau am adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau (DMR) a dalwyd, y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 i 2022 (a)**




Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Fferyllol)

(a) Dyma'r nifer o hawliadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na nifer y DMRs a ddarparwyd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.


**Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau (ADF), a Adolygu Meddyginiaethau wrth Ryddhau (AMR) yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol a blwyddyn ar StatsCymru**

Mae nifer yr adolygiadau o feddyginiaethau rhyddhau wedi bod ar duedd ar i fyny dros y 10 mlynedd diwethaf ac roedd bron i 13,900 yn 2021-22. Mae hyn yn gyfartaledd o 24 i bob fferyllfa gymunedol sy'n cynnig y gwasanaeth.

## Atal cenhedlu brys

Mae fferyllfeydd cymunedol yn gallu darparu cyngor atal cenhedlu brys a chyngor iechyd rhywiol ac roedd ar gael mewn 644 (neu 90%) o fferyllfeydd cymunedol yn ystod 2021-22.

**Siart 4.1: Atal cenhedlu brys a ddarparwyd, y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 i 2022**




Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Fferyllol)


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am hawlfraint.

### Fferyllfeydd sy'n darparu gwasanaeth atalcenhedlu brys, brechiadau ffliw tymhorol, a'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin, yn ôl BILl a blwyddyn ar StatsCymru

Darparwyd atal cenhedlu brys ar bron i 32,000 o achlysuron yn 2021-22. Roedd hyn yn gynnydd o 34% ers 2020-21 (yr effeithiwyd arni gan y pandemig). Fodd bynnag, mae'r duedd hirdymor wedi bod ar i lawr a darparwyd 12% yn llai o ddulliau atal cenhedlu brys yn y flwyddyn ddiweddaraf nag yn 2014-15 (y flwyddyn gyntaf y mae data cymaradwy ar gael ar ei chyfer).

**Siart 4.2: Rheswm dros ofyn am atal cenhedlu brys, 2021-22**




Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Fferyllol)

Dywedodd bron i 3 o bob 5 o'r menywod a ofynnodd am atal cenhedlu brys yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ystod 2021-22 nad oedden nhw wedi defnyddio dulliau atal cenhedlu. Dywedodd traean arall bod eu dull atal cenhedlu wedi methu.

## Brechlyn ffliw tymhorol


Gall fferyllfeydd cymunedol ddarparu brechiad y GIG yn erbyn ffliw tymhorol. Nid yw’r data yn y datganiad hwn ond yn cynnwys unigolion sy'n gymwys i gael brechlyn ffliw tymhorol a ariennir gan y GIG ac sy’n ei gael mewn fferyllfa gymunedol. Nid yw'n cynnwys unrhyw unigolyn a oedd yn gymwys ac a gafoddd y brechiad gan feddyg teulu nac unrhyw un sydd wedi talu am frechiad yn breifat yn y fferyllfa.

Roedd y brechlyn ffliw tymhorol ar gael mewn 644 (90%) o fferyllfeydd cymunedol yn ystod 2021-22.

Cafodd ychydig yn llai na 170,000 o frechlynnau ffliw tymhorol eu rhoi mewn fferyllfeydd cymunedol yn 2021-22 ac fe gafodd bron i 40,000 o bobl y brechlyn am y tro cyntaf. O'r bobl hynny a oedd hefyd wedi cael brechlyn tymhorol yn y flwyddyn flaenorol, ychydig o dan eu hanner (45%) oedd wedi’i gael yn eu practis meddyg teulu yn y flwyddyn flaenorol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 5.1: Brechiad ffliw tymhorol yn ôl rhyw'r derbynnydd, y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 i 2022




Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Fferyllol)


Cafodd 58% o frechlynnau ffliw tymhorol eu rhoi i fenywod a 42% i ddynion (lle'r oedd eu rhyw wedi'i nodi). Mae'r gyfran hon wedi aros yn gyson ers 2014-15.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 5.2: Brechlyn ffliw tymhorol yn ôl cymhwysedd, 2021-22 (a)




Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Fferyllol)

(a) Mae'r siart yn dangos pob rheswm dros gymhwysedd, yn hytrach na nifer y bobl a oedd yn gymwys. Os oedd unigolyn yn bodloni mwy nag un maen prawf, mae pob un o'r rhesymau wedi'i gyfrif yn y siart.

Rhwng 2021-22, mae data ar gael ynghylch cymhwysedd y claf am frechlyn ffliw tymhorol, gan gynnwys os ydynt yn gymwys am fwy nag un rheswm. O'r rhai a gafodd y brechlyn yn 2021-22 roedd bron 17,000 yn gymwys mewn mwy nag un categori.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.


Roedd y mwyafrif helaeth o gleifion yn gymwys oherwydd eu hoedran, gyda mwy na 77,500 yn 50 i 64 oed, a bron 65,000 yn 65 oed a throsodd; tra bod mwy na 13,000 yn gymwys am fod ganddynt glefyd anadlol cronig.

# Y gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Gall fferyllfeydd cymunedol ddarparu cyngor a chymorth i bobl ar reoli mân anhwylderau cyffredin gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, cyflenwi meddyginiaethau ar gyfer trin yr anhwylder hwnnw i'r bobl hynny a fyddai wedi mynd at eu meddyg teulu fel arall am gyngor neu bresgripsiwn.

Yn 2021-22, roedd 707 (99%) o'r 712 fferyllfa gymunedol yng Nghymru yn darparu ymgyngoriadau drwy'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin.

**Siart 6.1: Ymgyngoriadau'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin, y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 i 2022**




Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Fferyllol)



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Fferyllfeydd sy'n darparu gwasanaeth atalcenhedlu brys, brechiadau ffliw tymhorol, a'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin, yn ôl BILI a blwyddyn ar StatsCymru

### Siart 6.2: Ymgyngoriadau'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin (CAS) yn ôl mis, Ebrill 2021 i Fawrth 2022




Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Fferyllol)

Roedd y galw am ymgyngoriadau'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn wahanol yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn. Cafwyd y nifer fwyaf o ymgyngoriadau rhwng Ionawr a Mawrth, gydag uchafbwynt pellach ym mis Mehefin a Gorffennaf. Yn fras roedd nifer yr ymgyngoriadau yn debyg ym mhob mis arall.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 6.3: Dosbarthiad ymgyngoriadau'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn ôl oedran a rhyw, 2021-22




Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Fferyllol)


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Roedd crynhoad uchel o ymgyngoriadau ar gyfer plant gwrywaidd a benywaidd, gydag 1 o bob 4 (25%) o ymgyngoriadau yn ymwneud â phlant o dan 16 oed. Cafodd nifer uwch o ymgyngoriadau eu cynnal â chleifion benywaidd nag â chleifion benywaidd, gyda bron ddwy ran o dair (62%) o'r holl ymgyngoriadau yn ymwneud â menywod.


Mae'r dosbarthiad yn dangos bod nifer tebyg, yn fras, o ymgyngoriadau ar gyfer oedolion gwrywaidd o bob oed rhwng 20 ac 80. Fodd bynnag, mae amrywiaeth ehangach yn nifer yr ymgyngoriadau yn ôl oedran i fenywod sy'n oedolion, gydag uchafbwyntiau i fenywod rhwng 30 a 40 oed a 50 i 60 oed.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 6.4: Ymgyngoriadau'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin (CAS) yn ôl anhwylder, 2021-22




Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Fferyllol)

Yr anhwylder mwyaf cyffredin yr ymgynghorwyd yn ei gylch drwy'r gwasanaeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

oedd clefyd y gwair, sef ychydig yn llai nag 1 o bob 5 (18%) o'r holl ymgyngoriadau. Anhwylderau cyffredin eraill oedd llid pilen y llygad (15% o'r holl ymgyngoriadau) a chroen sych/dermatitis (12%).

## Cyflenwi meddyginiaethau brys

Mae'r Gwasanaeth Cyflenwi Meddyginiaethau Brys yn galluogi fferyllydd i roi i glaf ei feddyginiaethau rheolaidd, sydd ar gael drwy bresgripsiwn yn unig, mewn sefyllfaoedd brys. Mae sefyllfaoedd brys yn cynnwys y rhai lle gallai cyflenwad y claf fod wedi dod i ben, wedi'i golli, wedi'i ddifrodi, neu fod y claf yn methu â chael presgripsiwn cyn ei fod i fod i gymryd ei ddos nesaf, ac y byddai ym marn y fferyllydd niweidiol i iechyd y claf pe bai'n methu dos o'r feddyginiaeth.


Yn 2021-22, roedd 662 (neu 93%) o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru yn darparu cyflenwad o feddyginiaeth frys.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Siart 7.1 Cyflenwad meddyginiaethau brys, nifer yr eitemau a gyflenwyd, y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 to 2022**




Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Fferyllol)


Mae nifer yr eitemau a gyflenwyd drwy'r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau brys wedi cynyddu bob blwyddyn ers i ddata fod ar gael am y tro cyntaf yn 2016-17. Yn 2021-22, cafodd ychydig dros 84,000 o eitemau eu cyflenwi, sy'n gynnydd o 58% ers y flwyddyn flaenorol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 7.2 Yr eitemau mwyaf cyffredin a ragnodwyd drwy gyflenwad meddyginiaethau brys, 2021-22




Y cynnyrch meddyginiaethol mwyaf cyffredin a gafodd ei ragnodi gan fferyllfeydd mewn argyfwng oedd y Ventolin 100microgram/dos evohaler sy'n cynnwys y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cynhwysun actif salbwtomol, a ddefnyddir yn gyffredinol ar gyfer lleddfu ac atal symptomau asthma.  Ymysg yr eitemau cyffredin eraill a gyflenwyd roedd meddyginiaethau i drin ac atal wlserau stumog, i leihau pwysedd gwaed uchel neu lefelau colesterol, ac i drin iselder.

Sylwer y gall yr un feddyginiaeth ymddangos fwy nag unwaith os yw wedi'i rhagnodi mewn dosau/cyfeintiau gwahanol.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Darperir y data gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanaethau Fferylliaeth). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr **adroddiad ansawdd**.

Cafodd y gwasanaeth Adolygu Defnydd Meddyginiaethau ei atal dros dro ym mis Mawrth 2020 mewn ymateb i'r pandemig COVID. Mae'r gwasanaeth wedi dod i ben yn ddiweddar. Mae data ar gyfer blynyddoedd blaenorol ar gael yn y **datganiad ystadegol ar gyfer 2019-2020** ac ar **StatsCymru**.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae **Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig** wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 ac fel arwydd eu bod yn cydymffurfio â'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai unrhyw ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Maent yn derbyn statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n bodloni'r safonau uchaf o ran cydymffurfiaeth â'r Cod, gan gynnwys y gwerth maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaeth gyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cynnal cydymffurfiaeth â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu a yw'r ystadegau hyn yn dal i fodloni'r safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon gyda'r Awdurdod yn ddi-oed. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan na fydd y safonau uchaf yn cael eu cynnal, a'u hailgyflwyno pan fydd safonau'n cael eu hadfer.

Cadarnhawyd dynodiad parhaus yr ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2012 yn dilyn gwiriad cydymffurfiaeth gan y Swyddfa Ystadegau. Mae'r ystadegau hyn wedi'u dynodi'n Ystadegau Gwladol a chafodd **adolygiad** llawn ohonynt yn unol a'r Cod Ymarfer ei gynnal ddiwethaf yn 2012.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- Cyhoeddi'r datganiad ystadegol mewn fformat html, gyda data mwy agored yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan **StatsCymru**.
- Diweddaru'r adroddiad ansawdd ac adnewyddu'r sylwebaeth yn y datganiad.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn  ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cenedlaethol” sy’n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn osodwyd gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â’r naratifau ar gyfer pob un o’r nodau llesiant a’r wybodaeth dechnegol gysylltiedig, ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai’r ystadegau sydd wedi’u cynnwys yn y datganiad hwn ddarparu naratif ategol i’r dangosyddion cenedlaethol hefyd, a gallai byrddau gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio mewn perthynas â’u hasesiadau llesiant lleol a’u cynlluniau llesiant lleol.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Craig Thomas
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

Media: 0300 025 8099

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

SFR 208/2022

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.